# Gwariant a nifer y staff Comisiwn y Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

20 Gorffennaf 2017

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 23 Mehefin, pan wnaethoch ofyn am y canlynol:

> *O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, hoffwn ofyn am y wybodaeth ganlynol am y Cynulliad / Comisiwn y Cynulliad ar gyfer pob blwyddyn ers 1999:*
>
> 1. *nifer y staff*
> 2. *cyfanswm gwariant ar staff*
> 3. *nifer y staff sy'n ennill mwy na £ 100,000*
>
> *Ar gyfer y blynyddoedd cyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006, rhowch y ffigyrau ar gyfer rôl seneddol y "corff corfforaethol".*

Ceir ymateb i'ch cwestiynau yn yr adroddiadau blynyddol sydd eisoes wedi cyhoeddi ar ein gwefan. Rwyf wedi cynnwys linc i'r adroddiad blynyddol perthnasol a rhif y tudalen ble mae'r wybodaeth, i bob un o'ch cwestiynau.

| Linc i'r adroddiad blynyddol | 1. Nifer y staff (tudalen) | 2. Cyfanswm gwariant ar staff (tudalen) | 3. Nifer y staff sy'n ennill mwy na £100,000 (tudalen) |
|---|---|---|---|
| 2015-16 | 85 | 92 | 80 |
| 2014-15 | 97 | 123 | 92 |
| 2013-14 | 58 | 82 | 65 |
| 2012-13 | 52 | 91 | 60 |
| 2011-12 | 9 | 6 | 15 |
| 2010-11 | 6 | 43 | 15 |
| 2009-10 | 4 | 36 | 11 |
| 2008-09 | 5 | 33 | 12 |
| 2007-08 | 4 | 30 | 10 |

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA
Ffôn/Tel: 0300 200 6544

E-bost/Email: MynediadAtWybodaeth@Cynulliad.cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

Gan fod y wybodaeth yma eisoes wedi'i chyhoeddi, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

Ar gyfer y blynyddoedd cyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006, sef rhwng 1999 a 2006, roeddem yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru ac ar ôl chwilio ein cofnodion, rydym wedi cadw rhywfaint o wybodaeth.  Byddwch yn gweld o'r tabl isod mai dim ond data ar gyfer cwestiwn 1 rydym wedi eu cadw.

| **Blwyddyn** | **Nifer y staff** |
|---|---|
| 2006 | 281 |
| 2005 | 296 |
| 2004 | 319 |
| 2003 | 294 |

Ar gyfer cwestiynau 2 a 3, rwyf yn argymell bod chi'n cysylltu â Llywodraeth Cymru, sydd efallai yn dal y wybodaeth yma.  Dyma ei chyfeiriad e-bost: Freedom.ofinformation@Cymru.GSI.Gov.UK.

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF